Newyddion Ansawdd

...rhannu arfer dda

Prifysgol Cymru
University of Wales

Rhifyn 9 Tachwedd 2009

If you would prefer to receive Quality News in English, please contact us at **qualitynews@wales.ac.uk.**

Y Bwrdd Graddau Ymchwil

Mae'r Brifysgol wrth ei bodd i gyhoeddi fod yr Is-Ganghellor, yr Athro Marc Clement, wedi penodi'r Athro Robert Brown (DI-G Ymchwil yn UWIC) yn Gadeirydd y Bwrdd Graddau Ymchwil.

O ystyried dyfnder profiad yr Athro Brown, a'i ymwneud â chais llwyddiannus UWIC am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil, mae mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain gwaith y Brifysgol yn y maes hanfodol bwysig hwn.

Cynghrair Prifysgol Cymru: Cyfarfod cyntaf

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng Bwrdd y Bartneriaeth a Bwrdd Rheoli Cynghrair newydd Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd ar 9 Tachwedd, gan ddod â Chadeiryddion ac Is-Gangellorion y saith sefydliad prifysgol ar draws Cymru ynghyd. Mae'r sefydliadau hyn, sef Athrofa Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Caerdydd; Prifysgol Cymru, Casnewydd; Prifysgol Glyndŵr; Prifysgol Fetropolitan Abertawe; Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan (bydd y ddau olaf yn uno yn 2010 dan deitl Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r Brifysgol i weithio gyda'i gilydd o fewn fframwaith cyffredin er budd Cymru gyfan, ei heconomi, busnes a dywyllant ac i ganfod a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws amrediad o feysydd academaidd a chefnogol gan gynnwys ymchwil, arloesi a menter.

Cafwyd trafodaethau mewn ysbryd hynod gadarnhaol, gan gwmpasu mentrau arfaethedig yn y meysydd canlynol:

- Dysgu ac Addysgu
- Ymchwil
- Ansawdd
- Menter ac Arloesi
- Gwasanaethau Cyffredin
- Marchnata.

Mae gweithgor cydweithredol ar faterion ansawdd (Grŵp Ymarferwyr Ansawdd y Gynghrair) eisoes yn weithgar ers peth amser, ac wedi cyfarfod nifer o weithiau dan arweiniad Dr Medwin Hughes. Mae'r grŵp wedi bod o gymorth aruthrol i'r Brifysgol wrth ystyried ei threfn lywodraethu academaidd ddiwygiedig, yn enwedig wrth ffurfio ei Bwrdd Graddau Ymchwil newydd. Mae aelodau'n gweld bod ystyriaeth ar y cyd o faterion megis sicrhau cywerthedd, ymglymiad myfyrwyr ac archwilio pwyllgorau yn ddefnyddiol iawn, ac maent yn frwd dros barhau nid yn unig â'r drafodaeth, ond hefyd gweithredoedd newydd sy'n codi yn ei sgil.

Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth y datblygiadau yn y meysydd eraill a ddynodwyd!

Jenny Childs

Ar y gweill....

4 Rhagfyr: gweithdy PC ar gyfer darpar Hwyluswyr Sefydliadol ASA, Caerdydd

7 Ionawr 2010: Cynhadledd Flynyddol Safonwyr PC, Caerdydd

7-8 Ionawr 2010: Cynhadledd Gweinyddwyr AU Cymru-gyfan, Llandrindod

Dyddiadau i'w nodi:

Mai a Mehefin 2010: Cynadleddau Ymglymiad Myfyrwyr PC yng Nghaerdydd ac yn Singapor.

Proffil:

Dr Gareth Davies
Rheolwr Prosiect y Gynghrair

Teg yw dweud fod gan Gareth hoffter arbennig am Dde Cymru, gan iddo gael ei eni, ei fagu a'i addysgu yn Abertawe. Gadawodd am gyfnod byr, i astudio am Maîtrise mewn Arloesi yn l'Université d'Angers, ond dychwelodd i Brifysgol Abertawe ar gyfer ei astudiaethau PhD gan weithio fel Cynorthwyydd Ymchwil a Rheolwr Prosiect ar yr un pryd.

Ar wahân i ffafrio ei filltir sgwâr, mae Gareth yn teimlo'n gryf iawn fod potensial mawr ar gyfer datblygu yn y maes hwn, yn enwedig o ran cysylltu'r byd academaidd a diwydiant drwy arloesi creadigol. Mae ei brofiad o weithio ar fentrau gyda chefnogaeth rhwydwaith Technium wedi dangos y manteision sy'n deillio o ddod â grwpiau a sefydliadau â diddordebau gwahanol at ei gilydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu economïau lleol.

Ei farn yw bod angen meithrin y math hwn o weithio cydweithredol mewn gofod niwtral, ac mae'n teimlo fod strwythur cynhwysol PC yn arbennig o briodol, ar gyfer hyn a hefyd ar gyfer cynrychioli buddiannau'r genedl yn hytrach na grwpiau penodol. Mae swydd Gareth yn y Brifysgol yn newydd sbon, yn codi yn sgil ffurfio Cynghrair PC, ac mae'n teimlo'n gyffrous o gael gweithio gydag amrywiaeth mor eang o gyrff i wireddu eu dyheadau.

Mae agenda datblygu Cynghrair PC yn uchelgeisiol a swydd Gareth yw creu consensws yn nhermau disgwyliadau, ac yna sicrhau fod prosiectau y cytunir arnynt yn gweithredu'n llyfn o fewn strwythur sy'n parhau'n gydlynol ac yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion strategol y Gynghrair.

Yn naturiol, bydd yr agenda ansawdd yn greiddiol i bob datblygiad. Eisoes, mae'r Gynghrair wedi sefydlu Grŵp Ymarferwyr Ansawdd i drafod materion ansawdd a safonau o ran dyfarniadau PC, a chanfod cyfleoedd uchafu. Gobaith Gareth yw datblygu grwpiau tebyg ar gyfer meysydd eraill o weithgaredd o fewn y Gynghrair. Mae awydd gwirioneddol ymysg y cyfranogwyr i gydweithio, gan greu amgylchedd gwaith hynod o gadarnhaol a bywiog.

Wing Tsz Chow

Datblygu ein Strategaethau

Mae'n bwysig fod gan y Brifysgol strategaethau cyfredol i lywio ei gweithgareddau ym meysydd ansawdd a safonau academaidd. Dros y misoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau, yn ogystal â'n grwpiau ymarferwyr ansawdd, wedi bod yn ystyried strategaethau ar gyfer ansawdd a safonau academaidd, yn ogystal ag uchafu ansawdd.



Mae'n ddymunol fod pawb sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol yn cael cyfle i ystyried a chynnig sylwadau ar y strategaethau hyn wrth iddynt ddatblygu. Fel un llwybr tuag at gyflawni'r drafodaeth eang yr hoffem ei chael, bydd yr holl gydweithwyr sy'n gweithio i'r Brifysgol (ac sydd yn naturiol yn rhannu cyfrifoldeb i gyfrannu'n llawn at yr agenda hwn) yn cael gwahoddiad i seminar ansawdd awr ginio lle bydd cyfle i drafod y broses, sut mae'r strategaethau'n cael eu gweithredu a sut y gallem gyda'n gilydd geisio cyflawni'r egwyddor gyffredinol o annog gwelliant parhaus ym mhrofiad dysgu'r myfyrwyr sy'n dilyn ein graddau a'n dyfarniadau eraill.

John McInally

Pwyntiau Cyfeirio Allanol

Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Bwrdd Academaidd gynigion a fyddai'n golygu y byddai'r Brifysgol yn cymryd camau pellach i'w sicrhau ei hun fod trefniadau'r dyfarniadau a wneir yn ei henw yn adlewyrchu pwyntiau cyfeirio allanol priodol. Mae'r pwyntiau cyfeirio hyn yn cynnwys:

- Seilwaith Academaidd yr ASA - un gydran o hwn yw'r Cod Ymarfer bellgyrhaeddol y gellir ei gweld ar: http://www.qaa.ac.uk/academicinfrastructure/codeOfPractice/default.asp
- Fframwaith Credyd a Chymwysterau Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/creditqualificationsframework/publications/guidance/2937963/?lang=en

  a
- Safonau a Chanllawiau Ewrop ar gyfer Sicrhau Ansawdd ym maes Addysg Uwch yn Ewrop: http://www.enqa.eu/files/ESG_3edition%20(2).pdf.

Bydd y Swyddfa Ansawdd yn cysylltu yn y dyfodol agos i geisio asesiadau cydymffurfio gan gydweithwyr perthnasol, ond anogir holl aelodau cymuned y Brifysgol i ddiweddaru eu gwybodaeth am yr adnoddau hyn a gwirio cydymffurfiaeth yn eu herbyn yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael gan y Swyddfa Ansawdd yn y Gofrestrfa Academaidd ac ar y dolenni gwe a nodir uchod.

Byrfoddau:
ENQA = European Network for Quality Assurance in Higher Education
EQAR = European Quality Assurance Register for Higher Education.

John McInally

Ymarferwyr Ansawdd

Gan ddysgu o lwyddiant buan Grŵp Ymarferwyr Ansawdd y Gynghrair, mae'r Brifysgol wedi penderfynu ffurfio ei grŵp ei hun i weithio ar yr un materion ansawdd sy'n berthnasol i'w strwythur mewnol. Bydd Grŵp Ymarferwyr Ansawdd newydd PC hefyd yn cael y dasg o baratoi ar gyfer ein hadolygiad Sefydliadol gan yr ASA hydref nesaf, a bydd yn arwain y gwaith o lunio'r ddogfen hunan werthuso.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn fuan, a byddwn yn adrodd yn ôl ar yr amrywiol faterion wrth iddynt godi.

Cynnal Ymglymiad Myfyrwyr

Yng ngholofn y mis hwn rwyf i'n ystyried y gofyniad hanfodol mewn sefydliadau i gadw gwasanaethau myfyrwyr sydd eisoes wedi'u denu i fod yn gynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau. Drwy gadw'r un aelodau drwy'r flwyddyn, gellir cadw golwg gyson, nid yn unig ar faterion parhaus ond hefyd ar fframweithiau ac arferion sefydliadol. Bydd cynrychiolydd sy'n cael ei gefnogi ac sy'n gallu parhau i gyfrannu am flwyddyn academaidd gyfan yn ennill gwybodaeth werthfawr ac mae'n fwy tebygol o sefyll i fod yn gynrychiolydd eto y flwyddyn ganlynol.

Mae hyfforddiant yn rhan bwysig iawn o sicrhau fod myfyrwyr yn cael eu cadw o fewn strwythurau cynrychioliadol sefydliad, oherwydd mae'n eu paratoi ar gyfer y rôl ac yn rhoi hyder iddynt lwyddo. Ni fydd dim yn diflasu aelod myfyriwr yn fwy na chyfarfod nad yw'n ei ddeall, ac felly na all gymryd rhan ynddo!

Wedi annog myfyrwyr i fod yn gynrychiolwyr, mae'n hanfodol eich bod yn asesu pa hyfforddiant sydd ei angen, a'i deilwra i'w sgiliau hwy. Nid yw'n ddigon i ddarparu cyflwyniad safonol i gylch gorchwyl y pwyllgor penodol.

Yn dilyn hyfforddiant addas, os ydynt am gyfrannu mewn cyfarfodydd mae angen i aelodau myfyrwyr deimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi; dylid ceisio eu barn a'u cefnogi fel rhan o'r broses adborth academaidd. Ar y dechrau mae'n bosibl y byddant yn dibynnu'n ormodol ar brofiad personol; gallai hyn fod yn arwydd bod angen hyfforddiant cyn unrhyw gyfarfodydd eraill ar sut i adlewyrchu anghenion myfyrwyr eraill. Mae cydnabyddiaeth o'r fath o sgiliau ac anghenion hyfforddi yn un elfen fydd yn gwneud i fyfyrwyr deimlo bod gwerth iddynt o fewn amgylchedd y cyfarfod.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am themâu hyfforddi, neu os ydych chi wedi sefydlu systemau hyfforddi ond hoffech chi gael cyngor allanol, cysylltwch â mi yn ddi-oed i drafod y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau eich bod yn cadw ymglymiad myfyrwyr yn eich sefydliad.

Ben Gray
Swyddog Cyswllt Myfyrwyr

b.gray@cymru.ac.uk

Gwaith Aseswyr Academaidd y Brifysgol

Fel rhan o fodel sicrhau ansawdd datganoledig y Brifysgol, cyflwynwyd trefniadau interim i'r sefydliadau hynny o fewn rhwydwaith Cymru nad oedd ganddynt Bwerau Dyfarnu Graddau Trwy Gwrs (PDGTG) a Phwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (PDGY) eisoes yn weithredol, ond oedd yn bwriadu ymgeisio am y pwerau hynny. Elfen allweddol o'r trefniadau hynny oedd lleoli Asesydd Academaidd, a benodwyd gan y Bwrdd Academaidd, ym mhob un o'r sefydliadau dan sylw i gynghori ac arwain datblygiad academaidd ar ran y Brifysgol. Cafodd Pwyllgor Sicrhau Ansawdd PC adroddiad ar gynnydd y trefniadau interim, gan gynnwys adroddiadau'r Aseswyr Academaidd.

Dros y blynyddoedd diwethaf llwyddodd nifer o'r sefydliadau hyn i sicrhau PDGTG a PDGY. Yn wir, erbyn mis Ionawr 2009, roedd yr holl sefydliadau wedi sicrhau statws PDGTG, a chytunwyd yn y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y byddai hwn yn amser da i ystyried effeithiolrwydd y trefniadau interim. Gwahoddwyd Aseswyr Academaidd ac aelodau o'r Pwyllgor i gymryd rhan mewn trafodaeth agored ar y thema hon ar 14 Awst. Yn ogystal â chynnig cyfle rhagorol i rannu profiadau ar weithrediad y trefniadau, roedd hyn yn caniatáu i gydweithwyr ganfod cyfleoedd i wella'r broses a chynnig argymhellion i PC ar ddatblygiadau'r dyfodol.

Bydd canlyniadau ac argymhellion y cyfarfod wrth gwrs yn cael eu bwydo i strwythur pwyllgorau ffurfiol PC i'w hystyried ymhellach a gweithredu fel bo'n briodol.

Mae'r Brifysgol yn parhau'n ddiolchgar am gefnogaeth a chyngor adeiladol ei Haseswyr Academaidd a'r ysbryd o gydweithio maent wedi helpu ei meithrin yn y sefydliadau.

Wing Tsz Chow

Sicrhau ac uchafu ansawdd yng Nghymru - darlun sy'n newid?

Adroddiad cynhadledd ASA/AAU

Aeth pedwar cynrychiolydd o'r Brifysgol i'r gynhadledd bwysig hon a gynhaliwyd yn Llandrindod. Gan adeiladu ar brosiect tebyg a gynhaliwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2008, cyflwynodd y tîm ASA/AAU ganfyddiadau'r prosiect Cymreig, gan symbylu trafodaeth fywiog ar y themâu canlynol:

- diben a rôl uchafu
- y canfyddiad o uchafu ansawdd yn y sector AU Cymreig
- gwahanol ddulliau o uchafu ansawdd: cyfle i rannu ac ystyried arferion cyfredol

Roedd y tîm hefyd yn dymuno darganfod mwy am y ffordd orau o gynorthwyo sefydliadau yng Nghymru yn nhermau sicrhau ansawdd, a chynnig diweddariad ar waith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wrth gynorthwyo'r gwaith o uchafu cyfleoedd dysgu yng Nghymru.

Daeth y diwrnod i ben gyda sesiwn holi ac ateb, gyda swyddog myfyriwr sabothol yn ymuno â'r panel (yn y modd cymeradwy!)

Jenny Childs

Gweithdy Hwyluswyr Sefydliadol

Mae'r Brifysgol wedi trefnu cyfarfod a gweithdy ar gyfer Hwyluswyr Sefydliadol ddydd Gwener 4 Rhagfyr, i baratoi ar gyfer y rownd nesaf o adolygiadau sefydliadol yr ASA, sy'n dechrau yn 2010. Bydd hwn yn gyfle i ddarpar hwyluswyr drafod y rôl gyda rhai sydd wedi ymgymryd â hi o'r blaen a hefyd gyda Julian Ellis o'r ASA. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion.

Cyfarfod cyntaf ein Hyrwyddwyr Safoni

Fel yr adroddwyd yn Newyddion Ansawdd ym mis Awst 2009, mae'r Uned Ddilysu bellach wedi penodi unarddeg o Hyrwyddwyr Safoni i gefnogi gwaith pwysig y Safonwyr a staff yr Uned mewn canolfannau cydweithredol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf llwyddiannus dros ben o'r hyrwyddwyr safoni yng Nghaerdydd ar 3 Tachwedd, lle cytunwyd y byddai cyfarfodydd rhanbarthol o safonwyr yn cael eu trefnu drwy Gymru yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r holl safonwyr gyfarfod â'r hyrwyddwyr safoni a thrafod sut y bydd y rôl yn helpu i gefnogi eu gwaith, felly byddwn yn apelio am bresenoldeb llawn yn y cyfarfodydd hyn!

Bydd canlyniad unrhyw drafodaethau yn bwydo i Gynhadledd a chyfarfod blynyddol y Safonwyr yn Neuadd y Ddinas ar 7 Ionawr 2010.

Yn y digwyddiad hwn, bydd hyrwyddwyr safoni ac eraill yn arwain sesiynau trafod a bydd cyfle i'r holl safonwyr gyfarfod a'u cyd-safonwyr a chael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau diweddar o fewn Prifysgol Cymru a chynlluniau ar gyfer sesiynau'r dyfodol.

Helen Knifton

Darn y Dirprwy Is-Ganghellor: Esbonio'r Adolygiad Sefydliadol

Bydd yr ASA yn ymgymryd ag **Adolygiad Sefydliadol** o'r Brifysgol yn ystod hydref y flwyddyn nesaf. Mae erthygl y mis hwn wedi'i chynllunio i esbonio'r broses a rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr **adolygiad**.

Diben yr adolygiad hwn yw gweld pa mor dda rydym ni'n defnyddio ein gweithdrefnau sicrhau ansawdd a sicrhau safonau academaidd, ac adrodd y canfyddiadau i'r cyhoedd ac i'r sector Addysg Uwch. Gan fod gan y brifysgol nifer fawr o gyrsiau tramor bydd yn adolygiad **hybrid**, fydd yn cynnwys archwiliad o ddau o'n sefydliadau yn y DU ac un tramor.

Bydd y **tîm adolygu** yn cynnwys pum adolygydd, gydag un o'r rhain yn fyfyriwr, gyda chefnogaeth staff o'r ASA. Rydym ni'n enwebu **hwylusydd sefydliadol** (Jenny Childs), a fydd yn cysylltu â'r tîm yn ystod eu hymweliad. Bydd yr adolygiad yn cynnwys dwy ran benodol.

Y rhan gyntaf yw'r **Ymweliad Briffio**, sydd wedi'i drefnu ar gyfer wythnos 20 Medi 2010, ac sy'n caniatáu i'r tîm adolygu gael dealltwriaeth drylwyr o'r ffordd y mae'r brifysgol yn rheoli safonau ac ansawdd academaidd.

Bydd llawer o'r ymweliad hwn yn cynnwys ymchwiliad gan y tîm o'r dystiolaeth a gyflwynir yn **y Ddogfen Hunan Werthuso**, sef dogfen ôl-ystyriol a gyflwynir gan y brifysgol cyn y cyfarfod. (Bydd Darn nesaf y DIG ar y ddogfen hon). Yn ystod yr Ymweliad Briffio bydd y tîm adolygu yn penderfynu ar y meysydd ymchwil i'w dilyn pan fydd yn dychwelyd ar gyfer yr **Ymweliad Adolygu**.

Mae'r Ymweliad Adolygu wedi'i drefnu ar gyfer wythnos 18 Hydref 2010, ac yn ystod hwn bydd y tîm adolygu yn ymchwilio'n ddyfnach i'r meysydd ymchwil y penderfynwyd arnynt ym mis Medi. Bydd y tîm yn archwilio **llwybrau adolygu** penodol, a fydd yn cynnwys cyfweliadau gyda myfyrwyr a staff, ac adolygu dogfennau a ddefnyddir gan y brifysgol. Bydd y broses gyfan yn caniatáu i'r tîm adolygu ddod i benderfyniadau ar **gadernid** gweithdrefnau'r brifysgol a'i gallu i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth academaidd.

Caiff adroddiad terfynol ar yr ymweliad ei baratoi o fewn 22 wythnos i'r ymweliad, a bydd cyfle wedi bod i ni gynnig sylwadau ar faterion o gywirdeb ffeithiol cyn iddo gael ei gyhoeddi. Fel gyda'r holl bethau hyn, un peth sy'n cyfrif - yn yr achos hwn, **y dyfarniad** a fynegir gan y tîm adolygu. Ceir tri dyfarniad posibl, sef Hyder, Hyder Cyfyngedig a Dim Hyder. Mae'r ddau olaf yn golygu bod rhaid i'r sefydliad gyflwyno cynllun gweithredu i'r ASA sy'n cynnwys manylion am sut y bydd yn gwella'r sefyllfa.

Yr Athro Nigel Palastanga
Dirprwy Is-Ganghellor

Yn rhifyn mis Rhagfyr:

Edrych yn ôl ar 2009

Cynllunio'r Dyfodol

Diolch am eich cyfraniadau a'ch adborth.

Cadwch mewn cysylltiad â ni:
newyddionansawdd@cymru.ac.uk

Y mae'n bosibl cael copi o destun y cyhoeddiad hwn mewn gwahanol ffurfiau: cysylltwch â'r Brifysgol os gwelwch yn dda.

Cynhyrchir Newyddion Ansawdd gan John McInally, Helen Knifton, Wing Tsz Chow a Jenny Childs, ac fe'i golygir gan Jenny Childs.